

# 'A Noble Fragment' gan Bill Linnard

Gair o esboniad sydd eisiau i ddechrau, gefallai, am osod teitl Saesneg uwchben erthygl yn *Y Casglwr*. Y ffaith yw, dyna'r union eiriau a ddefnyddiwyd gan lyfrwerthwr yn Abertawe rai blynyddoedd yn ôl wrth ddisgrifio hen lyfr bregus a diffygiol oedd ar werth ganddo. Serch hyny, roedd yr hen lyfr hwnnw yn ddigon i dynnu dŵr o ddannedd casglwr, felly, penderfynais yn yr unfan brynu'r 'noble fragment' bondigrybwyll. Yn awr - ar awgrym y Golygydd - dyma ddisgrifiad byr ohono.

Copi o'r llyfr enwog *The historie of Cambria now called Wales* ydyw, ac fe'i cyhoeddwyd yn y flwyddyn 1584. Mae'r teitl gwreiddiol yn un hir: '*The historie of Cambria, now called Wales: A part of the most famous Yland of Brytaine, written in the Brytish language about two hundredth years past: translated into English by H. Lhoyd Gentleman: Corrected, augmented and continued out of Records and best approved Authors by David Powel Doctor in diuinitie. Cum Privilegio.*'

Wrth gwrs, mae'r llyfr enwog hwn yn adnabyddus ac yn bwysig, ac mae wedi cael ei ddisgrifio yn fanwl, e.e. gan William Rowlands yn *Llyfryddiaeth y Cymry* (1969, tt. 27-9). Does dim rhaid i mi ddisgrifio cynnwys y llyfr i ddarllenwyr *Y Casglwr*.

Mae fy llyfr yn ei rwywiad lledr gwreiddiol o'r unfed ganrif ar bymtheg - peth traul ar y lledr wrth reswm - ond mae'r addurn syml euraidd yn weladwy ar y cloriau o hyd. Yn affodus, mae nifer o'i dudalennau printiedig ar goll (sef tt. 1-2, 25-34, 63-6, 125-8, 139-40), ffaith sy'n cyfiawnhau'r term Saesneg 'noble fragment'. Ond dros y blynyddoedd mae'r hen lyfr wedi cael nifer o ychwanegiadau ysgrifenedig hefyd, a nhw sy'n creu diddordeb arbennig, fel y cawn weld.

Cynhwysa fy llyfr ddalen wag yn y ffyrnt ac un arall ar y cefn, gyda nodiadau ysgrifenedig arnynt. Ar y ddalen ffyrnt mae'r nodyn canlynol wedi'i sgriflan mewn pensel: '*Edward Williams his book the gift of his Aunt Ann Gwilt September 27 1856*'. Mab Talisesin ap Iolo, ac felly w'r Iolo Morganwg, yw'r Edward Williams hwn. Ar ochr arall y ddalen mae nodyn ffurfiol mewn inc ac ysgrifenedig taclus iawn gan Iolo Morganwg ei hun: '*Ann Mathews Williams, Her Book, bought at the Sales of the late William Rees of Court Coleman Esqr's Books 1821*'. Mae'n amlwg, felly, fod yr hen Iolo wedi prynu'r llyfr yn y sêl yng Nghwrt Coleman, ac wedyn wedi'i roi yn anrheg i'w ferch Ann. Cwrt Coleman wrth gwrs, ydy enw hen blasty enwog yn agos i Benybont-ar-Ogwr ym Morgannwg.


(Gyda llaw, rwy'n ddiolchgar dros ben am gymorth caredig gan aelodau'r tîm ymchwil sy'n gweithio ar y prosiect, Iolo Morganwg, yn Y Ganolfan Geltaidd yn Aberystwyth, sef Y Dr Mary Ann Constantine, Y Dr David Ceri Jones a'r Dr Cathryn Charnell-White, am adnabod y llawysgrifen ac am gadarnhau hunaniaeth y tri Williams uchod, sef Iolo, ei ferch, a'i w'r.)

Yn gyferbyn, ar ymyl y ddalen brintiedig gyntaf yn y llyfr, ceir sylw miniog mewn inc gan Iolo Morganwg: '*There would have been no ancient nobility for everyone was equally noble. E.W.*'

Wrth droi tudalennau'r llyfr ei hun, gwelir nifer o nodiadau ymylol (*marginalia*) trwyddo, naill ai'n cyfeirio at y testun printiedig, neu lofnodion (*autographs*) sy'n tystio, mewn ffurf fformiwlai iawn, pobl



Llyfr - peth traul ar y lledr ac ar yr addurn euraidd.



Nodyn ffurfiol gan Iolo Morganwg yn cyswyno'r llyfr i'w ferch (Ann Mathews Williams) ac ar y tudalen gyferbyn, nodyn ymylol gan E.W. (Iolo Morganwg) yn cyfeirio at y testun.

eraill ym Mro Morgannwg a oedd wedi cael gafael ar y llyfr ar brydiau gwahanol yn ystod ei hanes hir, cyn iddo ddod i ddwlylo Iolo a'i deulu:

'John Morgan his hand and pen' (t. 161),  
'Thomas Stradling his hand and pen in the name of god' (t. 171),  
'Richard Hopkins his hand' (t. 196),  
'Owen John his Book & witness' (t. 198)  
'Edward Hopkins his hand and pen in the name of god Amen' (t. 208).

Stradling, wrth gwrs, oedd enw hen deulu enwog yn hanes Morgannwg. Y Stradlingiaid o Gastell Sain Dunwyd fu'n hybu llenyddiaeth Cymru yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Er enghraifft, Syr Edward Stradling (1529-1609) oedd noddwr

Dr Siôn Dafydd Rhys, a thalodd gost argraffu'i ramadeg ym 1592. Ysywaeth, tua diwedd y ddeunawfed ganrif gwerthwyd llyfrgell odidog Sain Dunwyd, ac aeth llawer o'i thrysorau ar goll (gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig* t. 670).

Ar y dudalen wag yng nghefn fy llyfr ceir dau nodyn Saesneg sy'n tynnu sylw arbennig at bethau ynddo, sef: '*Autograph of Thomas Stradling p. 170 and dsitto (faint) last page*'. Ac hefyd: '*Discovery of America by Madoc ap Owen Gwynedd t. 228*'.

Ar ôl hyn oll, siom braidd oedd gweld, ar gefn y tudalen olaf, manylon bil bach a dibwys yn ddyledus i '*Mr David Bridgend the Sume of £6-6-0*'.

Felly, mae'r cyflwyniad a'r nodiadau ymylol yn ychwanegu at werth a diddordeb y 'noble fragment'. Mae bod yn berchennoog trysor unigryw fel hyn, a aeth trwy ddwylo tair cenedlaeth teulu Iolo Morganwg, yn achosi teimlad o gyfrifoldeb ynof, a phenbleth hefyd.

of North Wales, before his death, the same was sold to him. In the year 1590, was the manor of Clupton upon Chynnamore. The same year, S. Dunwyd was burnt by the West Saxons. There was also a general increase and death of cattle throughout all Wales. The next year ensuing, Owen the sonne of Meredith, the sonne of Ieuan died: and the Castell of Degeunwy was destroyed with thunder. Conan prince of Wales, and his brother Howell could not agree, in somuch that they tried the matter by battell, wherein Howell had the vicorie.

\* Elis Howell the brother of Conan, being at Pointe of North Wales, did claime the Isle of Man as Angles for part of his fathers inheritance, which Conan refused to give him, and thereupon they fell at variance, and consequently to make knowne the one against the other, which is recorded in the old histories.

Page 3 think it fit to give somewhat of the custome and toime of Wales, whereof this is the first part, that is, the division of the fathers inheritance amongst all the families, commonly called Gwel Gwel. Gwel is a Welsh word meaning a bold, because every one of the families do hold some portion of his fathers lands, as his lands were and is called. This lawe the custome of the secretaries of all the ancient nobilitie of Wales has by that means, the inheritance being common to the mother and subdivided amongst the children, and the children children, at last at length brought to nothing but all of much blindness and unnatural Greiv and contention amongst themselves, as we have here an example, and many more in their histories. This kind of partition is verie good to plant and settle some nation in a large country not inhabited, but in a populous country it is verie harmful, as we see in the decay of great families, as we see in 3 and before, the cause of Greiv and debate.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.

2041.